



Datganiad Ardal CNC a Hysbysiad Preifatrwydd SMNR yn unol â GDPR

Enw a manylion cyswllt y Rheolwr Data

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r Rheolwr Data ac mae wedi ymrwmo i warchod hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Rheoli Data. Gallwch gysylltu â'r Swyddog ar dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

Pa wybodaeth yr ydym yn ei gasglu amdanoch?

Os ydych yn derbyn e-gylchlythyr gan CNC ynghylch datganiadau ardal a Rheolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol (SMNR), yna byddwch wedi cydsynio i dderbyn yr e-gylchlythyr hwnnw. Rydym yn defnyddio system wedi'i neilltuo ar gyfer e-gylchlythyrau sydd yn storio eich enw a'ch cyfeiriad e-bost mewn lleoliad diogel, a bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dileu yn awtomatig o'r rhestr ddsbarthu os ydych yn clicio ar yr opsiwn 'dileu tanysgrifiad' yn ein e-gylchlythyr.

Mae gennym hefyd gronfa ddata/cronfeydd data ar wahân ar gyfer unigolion a sefydliadau (rhanddeiliaid) y byddwn yn gohebu â hwy ynghylch datblygiad datganiadau ardal. Gall y cyswllt hwnnw amrywio, o alwadau ffôn ac e-byst yn cynnwys gwybodaeth i wahoddiadau i fynychu digwyddiadau a chyfarfodydd yn ymwneud â datblygiad datganiadau ardal. Y manylion sy'n cael eu storio ar y gronfa ddata fydd eich enw, y sefydliad yr ydych yn gweithio iddo/yn ei gynrychioli/yn gwirfoddoli iddo, rhif ffôn/rhif ffôn symudol busnes neu bersonol, a'ch cyfeiriad e-bost gwaith/personol. Mae'n bosib y byddwn yn storio eich cyfeiriad busnes neu gyfeiriad eich cartref hefyd.

Os ydych yn darparu tystiolaeth/data/gwybodaeth sy'n ymwneud â datblygu datganiadau ardal, yna byddwn yn storio'r dystiolaeth/data/wybodaeth hon ar y cyd â'ch manylion cyswllt. Os gwnaethoch gais i aros yn ddiennw ar ôl cyflwyno tystiolaeth/data/gwybodaeth, yna bydd CNC yn parhau'r penderfyniad hwn ac yn storio'r dystiolaeth/data/wybodaeth hon yn ddiennw.

Os ydych am atal gohebiaeth gyda CNC ar ddatblygu datganiadau ardal yn y dyfodol, yna cysylltwch â ni i'n hysbysu o hynny. Byddwn yn dileu eich manylion personol o'n cronfa ddata rhanddeiliaid, ac yn eich dileu o restr ddsbarthu'r e-gylchlythyr. Os ydych am i ni gael gwared ar unrhyw dystiolaeth/data/gwybodaeth ynghylch rheoli adnoddau naturiol a ddarparwyd gennych o'n systemau TG, yna gofynnwch am hynny hefyd.

Sut y defnyddir eich gwybodaeth?

I gefnogi datblygiad datganiadau ardal, fel yr amlinellir yn Rhan 1 Adran 11 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016.

Bydd dibenion prosesu data personol yn cynnwys:

- Cysylltu â rhanddeiliaid ac unigolion i holi am eu mewnbwn ynghylch datblygiad datganiadau ardal.
- Catalogio gwybodaeth am reolaeth adnoddau naturiol yn ymwneud â lleoliadau, pynciau a chynefinoedd penodol.
- Dogfennu tystiolaeth ynghylch rheolaeth adnoddau naturiol yng Nghymru.
- Ymateb i ymholiadau/cwynion.

Beth yw ein sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol?

Ar gyfer dibenion gohebu ynghylch datblygiad datganiadau ardal, bydd eich manylion personol yn cael eu prosesu yn unol ag amod erthygl 6 y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

- Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn i ni ymgymryd â thasg *er budd y cyhoedd*.
- Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion y *buddiannau dilys* gan y rheolwr neu gan drydydd parti.

Mae gan CNC dasg gyhoeddus o dan amodau Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, rhan 1 adran 11, i arwain ar y gwaith o baratoi Datganiadau Ardal. Mae'r ddeddf yn pennu'r angen i CNC:

- *Egluro sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi eu cymhwyso wrth baratoi'r datganiad(au) (ardal)*

Mae rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol, fel y'i diffinnir yn rhan 1 adran 4 o'r Ddeddf, yn pennu'r angen i CNC:

(c) hyrwyddo ac ymgysylltu â chydweithio a chydweithredu;

(d) wneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;

(e) ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch;


O ganlyniad, mae gan CNC dasg gyhoeddus i ymgymryd â chyfranogiad y cyhoedd, sydd yn galw am brosesu data personol. Bydd prosesu yn gyfyngedig, gan gynnwys rhestr o randdeiliaid gyda chysylltiad â datblygiad datganiadau ardal. Gellir cynnwys rhywfaint o fanylion ar wybodaeth benodol neu dystiolaeth ynghylch adnoddau naturiol sydd ynghlwm â'r person hwnnw, ynghyd â manylion personol yr unigolyn. Ni fydd CNC yn storio unrhyw **'gategoriau arbennig'** o ddata personol y gellid eu pennu fel manylion personol sensitif.

I'r sawl sy'n derbyn e-gylchlythyrau, ein sail gyfreithiol dros i chi dderbyn yr e-gylchlythyr arferol hwn fydd y caniatâd yr ydych yn ei ddarparu naill ai'n electronig trwy ein system ar-lein, neu'r caniatâd yr ydych yn ei roi drwy ffurflen gofrestru papur mewn digwyddiad neu gyfarfod a gynhelir gan CNC.

Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?

Y staff CNC sy'n gyfrifol am ddatblygu datganiadau ardal a hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol, yn ogystal â staff technegol sy'n gyfrifol am gynnal systemau TG a gwasanaethau cyfathrebu fel gwefan CNC.

Unrhyw drosglwyddiadau i drydydd gwledydd a'r mesurau diogelwch sydd ar waith

Ni fydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i drydydd partiön heb ganiatâd ymlaen llaw. Efallai y byddwn yn gofyn am ganiatâd i rannu manylion cyswllt personol a data a gawn gan unigolion cyfatebol ynghylch datblygu datganiadau ardal os credwn fod y wybodaeth hon o ddiddordeb i'r cyhoedd. Byddai trydydd partiön a allai fod â diddordeb mewn cael gafael ar y data hwn yn cael eu cyfyngu i'r sefydliadau sector cyhoeddus hynny neu gwmnïau/sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd â chylch gwaith i ymgymryd â gwaith er budd y cyhoedd, e.e. cwmnïau dŵr. 

Pa mor hir y cedwir eich gwybodaeth?

Ni fydd eich manylion yn cael eu cadw am gyfnod parhad proses datganiad ardal CNC. Ar hyn o bryd, nid oes dyddiad terfyn sefydlog ar gyfer rhoi datganiadau ardal ar waith, felly byddwn yn cadw'ch manylion personol ac yn eu hadolygu i sicrhau eu bod wedi eu diweddarau. Ar gyfer yr unigolion hynny sy'n derbyn ein datganiad ardal reolaidd a'r e-gylchlythyr SMNR, byddwn yn cadw'ch manylion ar ein system hyd nes y byddwch yn dileu eich cydsyniad drwy ddileu eich tanysgrifiad.

Beth yw hawliau'r unigolyn?

Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol, i gywiro, i ddileu, i gyfyngu ac i gludo eich gwybodaeth bersonol o un corff i'r llall. Ewch i'n tudalennau Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau

Dylid cyflwyno unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data CNC: -

E-bost – dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

**Swyddog Diogelu Data
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW**

Diogelwch eich gwybodaeth

Bydd eich data'n cael ei gadw ar systemau TG a ddiogelir gan gyfrinair a systemau TG â chyfyngiad defnyddwyr na ellir ond eu defnyddio gan yr aelodau hynny o staff CNC sy'n gyfrifol am ddatblygu datganiadau ardal a chyfathrebiadau SMNR.

Sut i wneud cwyn

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae'ch data personol wedi'i brosesu, gallwch gysylltu yn y lle cyntaf â Swyddog Diogelu Data CNC gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych yn dal yn anfodlon, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol am benderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO),
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Sir Gaer,
SK9 5AF**

www.ico.org.uk